# Cyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan

Annwyl Gynghorydd 6 Ionawr 2024

Rwyf yn eich galw trwy hyn i fynychu cyfarfod Hybrid* Cyngor Tref Rhuddlan a gynhelir nos Iau, 11 Ionawr 2024 am **6.30pm**. Dylai aelodau'r cyhoedd sy'n dymunu mynychu drwy Zoom roi gwybod i Glerc y Dref erbyn 4pm ar 11 Ionawr 2024 fel bod modd gwneud y trefniadau angenrheidiol. Neu, mae croeso i aelodau'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod. **Gellir ymuno drwy Zoom neu ddod i'r cyfarfod yn* ***Hwb Rhuddlan, Clos David Owen, Rhuddlan LL18 2UJ***

**Agenda**

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Datgan buddiant**
3. **Llyfrgell Rhuddlan** – y mater i'w drafod gyda Swyddogion CSDd
4. **Materion Brys fel y'u Cytunwyd gan y Cadeirydd** – rhybudd o eitemau a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried fel mater o frys yn unol â'r Rheolau Sefydlog
5. **Materion yr heddlu:**
   a. derbyn adroddiad am droseddu
6. **Cofnodion** – cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023, cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Digwyddiadau a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023, a chofnodion cyfarfod y Gyllideb a'r Praesept a gynhaliwyd ar 4 Ionawr 2023.
7. **Adroddiad am gynnydd ar sail y cofnodion**
8. **Adroddiadau gan:**
   a. Y Maer
   b. Clerc y Dref – gohebiaeth ac adroddiad am brosiectau
9. **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir** – derbyn yr adroddiadau
10. **Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer Cynghorwyr** – y mater i'w drafod a'i gytuno
11. **Cynllunio**
    a. 44/2023/0825 Torri un goeden ffynidwydd o fewn Ardal Gadwraeth Rhuddlan, Tŷ Mawr, Stryd y Castell, Rhuddlan
    b. 44/2023/0741 Tocio a chodi brigdyfiant coeden castanwydden i 5.5m a lleihau'r brigdyfiant i 1 - 1.5m yn ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed Cyngor Sir Ddinbych 1/2004 yn 15 Tirionfa, Rhuddlan
    c. 47/2023/0708 Newid defnydd tir ac adeiladau presennol y clwb i greu safle glampio gan gynnwys gosod 9 pod glampio, adleoli'r fynedfa bresennol, creu ffyrdd a llwybrau mewnol, gosod 2 o weithfeydd trin pecyn a gwaith cysylltiedig yn y Cae Chwarae, Waen Road, Rhuddlan.
12. **Y Gyllideb a Materion Ariannol**
   a. Ceisiadau am grantiau - Dim
   b. Cymeradwyo'r rhestr o daliadau sy'n ddyledus
13. **Materion Cymunedol**

**Rhan 2**. Cau allan y wasg a'r cyhoedd. Yn rhinwedd Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, mae'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o drafodaethau ar y materion canlynol ar y sail y byddai eu datgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

14. **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**:
    - 7 Chwefror 2024 (cyfarfodydd y Pwyllgor Personél a'r Pwyllgor Diogelwch Ffyrdd)
    - 8 Chwefror 2024 (cyfarfod busnes mis Chwefror)

*Steve Wilson –* Clerc y Dref 07775 673706 clerk@rhuddlantowncouncil.gov.uk